# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (257)

**Dyddiad: Dydd Mercher 30 Mawrth 2011**
**Amser: 13.30**

**13.30**
**Eitem 1: Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol**
Gofynnwyd y cwestiwn.

……………………….

**13.37**
**Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl.

……………………….

**14.16**
**Eitem 3: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Gofynnwyd yr 13 cwestiwn cyntaf.  Ni ofynnwyd cwestiwn 5.  Tynnwyd cwestiwn 9 a 10 yn ôl. Atebwyd cwestiwn 13 gan y Dirprwy Weinidog dros Blant.

……………………….

**14.51**
**Eitem 4: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: 'Hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru'**

**NDM4716 Sandy Mewies (Delyn)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Chwefror 2011.

Noder: Ymateb y Gweinidog dros Dreftadaeth i'r adroddiad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

……………………….

## 15.57
## Eitem 5: Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma i gyn-filwyr y lluoedd arfog

**NDM4717 Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma i gyn-filwyr y lluoedd arfog, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2011.

Noder: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

……………………….

## 16.37
## Eitem 6: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

**NDM4715 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi â chryn bryder a siom bod GYC Cymru erbyn hyn yn ddim ond 74.3% o gyfartaledd y DU ac yn 62.6% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Yn croesawu'r cyhoeddiadau yn Natganiad Cyllideb Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â chymorth i fusnesau.

Gellir gweld copi o ddogfen y Gyllideb yn:

http://www.hm-treasury.gov.uk/2011budget.htm

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 33 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r angen i gynyddu GYC Cymru o'r lefelau cyfredol o 74.3% o gyfartaledd y DU ledled Cymru a 62.6% yn y Gorllewin a'r Cymoedd.

2. Yn nodi pwysigrwydd ystyried amrywiaeth ehangach o ddangosyddion na GYC y pen yn unig, er mwyn cael darlun cytbwys o economi Cymru.

3. Yn cydnabod cynllun Llywodraeth Cymru i greu economi gryfach, fwy cynaliadwy drwy weithredu 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.

*Ceir rhagor o wybodaeth am 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' drwy ddilyn y linc a ganlyn:*

http://cymru.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/?skip=1&lang=cy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 16 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, er mwyn creu swyddi a gwella ein heconomi, bod angen i ni gynnig £2,000 i gwmnïau ar gyfer hyfforddi staff os ydynt yn rhoi swyddi i bobl ifanc sy'n ddi-waith ac yn sefydlu rhaglen arloesi er mwyn buddsoddi yn y seilwaith sydd ei angen ar economi lewyrchus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 11 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sefydlu Parthau Menter yng Nghymru, gan ddefnyddio arian canlyniadol fel sail ar gyfer y rhaglen hon.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4715**

Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r angen i gynyddu GYC Cymru o'r lefelau cyfredol o 74.3% o gyfartaledd y DU ledled Cymru a 62.6% yn y Gorllewin a'r Cymoedd.

2. Yn nodi pwysigrwydd ystyried amrywiaeth ehangach o ddangosyddion na GYC y pen yn unig, er mwyn cael darlun cytbwys o economi Cymru.

3. Yn cydnabod cynllun Llywodraeth Cymru i greu economi gryfach, fwy cynaliadwy drwy weithredu 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.

*Ceir rhagor o wybodaeth am 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' drwy ddilyn y linc a ganlyn:*

http://cymru.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/?skip=1&lang=cy

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 16 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

............................

**17.29**
**Cyfnod Pleidleisio**

............................

**17.31**
## Eitem 7: Dadl fer

**NDM4714 Sandy Mewies (Delyn):**

Pwy sy'n Gofalu yn Nelyn?

……………………….

**17.51**
## Eitem 8: Datganiad i gloi gan y Llywydd

Daeth y cyfarfod i ben am 18.07.

……………………….

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ddiddymu am hanner nos ar 31 Mawrth 2011. Ni fydd busnes yn y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y Pedwerydd Cynulliad yn dechrau ar ôl diwrnod yr etholiad ar 5 Mai 2011. Bydd angen i'r Cynulliad gynnal Cyfarfod Llawn i ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd o fewn saith niwrnod gwaith wedi dyddiad yr etholiad.**